Adroddiad i'r	Cyngor Sir
Dyddiad y cyfarfod	11 Hydref 2022
Aelod / Swyddog Arweiniol	Cyng Julie Matthews, Aelod Arweiniol Strategaeth Gorfforaethol, Polisi a Chydraddoldeb / Nicola Kneale, Cyd-Bennaeth dros dro Gwella Busnes a Moderneiddio
Awdur yr adroddiad	Nicola Kneale, Cyd-bennaeth Dros Dro, Gwella Busnes a Moderneiddio
Teitl	Cynllun Corfforaethol Cyngor Sir Ddinbych 2022-27

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Cynllun Corfforaethol Cyngor Sir Ddinbych 2022-27

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Mae angen penderfyniad i fabwysiadu cyfres o amcanion Lles, Cydraddoldeb a Gwelliant Sefydliadol ar gyfer y Cyngor, yr ydym wedi'u cyfuno i un ddogfen strategol allweddol: Cynllun Corfforaethol sy'n amlinellu gweledigaeth i'r Cyngor weithio tuag ati dros y pum mlynedd nesaf.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Cyngor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad B) fel rhan o'i ystyriaethau.

3.2. Argymhellir bod, yn amodol ar unrhyw newidiadau a gytunir, yr Aelodau'n cymeradwyo drafft terfynol Cynllun Corfforaethol 2022-27 er mwyn gallu cyfieithu a chyhoeddi'r ddogfen.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

4. Manylion yr adroddiad

4.1 Mae'n ofyniad statudol bod Awdurdodau Lleol yn cyhoeddi Amcanion Lles, Amcanion Cydraddoldeb, ac yn nodi meysydd ar gyfer Gwelliant Sefydliadol. Mae Cynllun Corfforaethol 2022-27 Sir Ddinbych yn darparu'r holl swyddogaethau hyn, ac mae'n ddogfen allweddol am sawl rheswm ychwanegol:

a Mae cytuno ac esbonio ein gweledigaeth a'n huchelgais fel hyn yn ein cynorthwyo i gael cytundeb ac i gyfathrebu gyda'n preswylwyr, partneriaid a rheoleiddwyr;

b. Mae'r arweinyddiaeth gorfforaethol sy'n deillio o ganlyniad i gael Cynllun Corfforaethol yn ein cynorthwyo i fynd i'r afael â nodau sy'n trawstorri ac yn gymhleth e.e. mynd i'r afael ag amddifadedd.

4.2 Mae'r addewidion allweddol yr ydym wedi ymrwymo i'w cyflawni yn y cynllun wedi'u trefnu mewn themâu. Maent yn bwysig am eu bod naill ai:

a. Angen cyllid cyfalaf / refeniw sylweddol e.e. ffyrdd ac ysgolion newydd (ond nid oes angen cyllid ychwanegol ar bopeth);
b. Angen newid diwylliannol / sefydliadol sylweddol e.e. i fod yn Sir Ddinbych lle mae'r Iaith Gymraeg a Diwylliant Cymru yn ffynnu, a / neu
c. Yn effeithio ar y sir gyfan e.e. sefydlu isadeiledd gwefru cerbydau trydan.

4.3 Mae ein Hamcanion Lles a Chydraddoldeb yn nodi lle rydym eisiau gweld newid a / neu welliant ar gyfer ein cymunedau yn y pum mlynedd nesaf. Nid ydynt yn cynnwys popeth a wnawn sy'n bwysig. Mae ymrwymiadau statudol a busnes pwysig o ddydd i ddydd yn cael ei nodi a'i fonitro yn unol â'r gwasanaethau sy'n eu harwain drwy gynlluniau busnes y gwasanaeth.

4.4 Mae'r blaenoriaethau a amlinellwyd yn y Cynllun Corfforaethol wedi'u llunio drwy broses fanwl a chlir o gasglu a dadansoddi tystiolaeth (Asesiad Lles) ac ymgynghoriad manwl gyda'n cymunedau (Sgwrs y Sir).

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Bydd y penderfyniad yn gosod y cyfeiriad strategol ar gyfer y Cyngor ar gyfer 2022-2027.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Bydd mabwysiadu'r Cynllun hwn yn cael effaith eang o ran galluogi llywodraethu, trosolwg o ddarpariaeth yn erbyn y nodau hyn ac -yn ymarferol - bydd yn effeithio ar y nodau yr ydym wedi'u gosod ein hunain o ran lleihau carbon ac ati.

6.2. O ran llywodraethu, bydd y Cynllun yn dylanwadu ar ailstrwythuro'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth sydd i ddod, wrth i'r Cyngor sicrhau bod y strwythur a'r adnoddau priodol ar gael i gyflawni ei amcanion. Byddwn yn rhannu ac ymgynghori ar hyn maes o law.

6.3. Bydd manylion ymarferol unrhyw ddatblygiadau gwasanaeth neu brosiectau a restrir yn y Cynllun hwn yn cael eu datblygu, yn destun ymgynghoriad, ac fe asesir eu heffaith wrth iddynt fynd rhagddynt.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

- Bydd angen i ni weithio gyda busnesau, ffermwyr ac Undebau Llafur yn agosach, a chysylltu â gwaith rhanbarthol drwy Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.
- Mae potensial i wneud y mwyaf o ddatblygu sgiliau o ran tai carbon isel yn bennaf. Ond, mae merched a phobl gyda nodweddion a ddiogelir a phobl sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn llai tebygol o elwa o gyfleoedd o'r meysydd gwyrdd.
- Efallai y bydd rhai addewidion yn arwain at gynnydd yn ein hallyriadau carbon yn y camau datblygu.
- Efallai y bydd angen ailystyried o ran gwydnwch risg hinsawdd i gynnwys hafau poethach, sychach.
- Mae dolydd blodau gwyllt yn parhau i beri dadl gyda rhai preswylwyr yn eu gweld yn ddolur llygad. Gallai'r cynllun newydd gymryd y cyfle i gyflwyno'r rhaglen newid hinsawdd ac ecoleg i bobl.
- Dylid parhau i adolygu testunau fel lles meddyliol wrth i ni ddechrau ailafael ar bethau wedi'r pandemig, ond yn symud i gyfnod gyda mwy o bwysau o ran costau byw.
- Mae rhywfaint o drafodaeth o ran sut mae profiadau o Covid-19 wedi gwaethygu anghydraddoldeb - er nid yw'r canlyniadau'n gwbl ddealladwy eto. Efallai y gallai'r

cynllun gyfeirio'n benodol at y rhain, yn enwedig o ran iechyd, dysgu a thyfu a themâu tecach, sy'n fwy cyfartal.

- Nododd yr asesiad lles fod lles pobl anabl yn waeth nag eraill, gyda chysylltiadau allweddol rhwng tai a chyflogaeth.
- Efallai na fydd rhai o'r addewidion yn gallu lliniaru tlodi ac anfantais yn rhannol, heb sôn am yn llwyr.
- Bydd angen targedu rhai ymyraethau i fod yn effeithiol. Nid oes ardal ddaearyddol benodol i ganolbwyntio arni ar hyn o bryd, er mae'n debyg y bydd un yn dod i'r amlwg wrth i addewidion penodol gael eu datblygu.
- Mae rhywfaint o drafodaeth o ran sut mae profiadau o Covid-19 wedi gwaethygu anghydraddoldeb, sy'n gallu achosi i unigolion penodol wynebu fwy o risg- er nid yw'r canlyniadau'n gwbl ddealladwy eto.
- I ba raddau mae'r cynllun yn ceisio cyfrannu at wydnwch hirdymor ardaloedd gwledig ynghyd â'r cyfleoedd i ddatblygu a diogelu asedau gwledig allweddol?
- Efallai y bydd angen talu mwy o sylw i'r economi wledig a phwysigrwydd amaethyddiaeth i ddiwylliant. Efallai bod angen 'ail-ganolbwyntio' y cyngor mewn rhyw ffordd i ddarparu adfywiad diwylliannol mewn modd cydlynol - gallai adolygu strwythur newydd yr uwch dîm arweinyddiaeth fynd i'r afael â hyn.
- Bydd angen gweithio gyda'n partneriaid a Llywodraeth Cymru i gefnogi busnesau bach a chanolig i sicrhau eu bod wedi'u paratoi ac mewn sefyllfa dda ar gyfer newidiadau i brosesau caffael.

Dylai'r addewidion unigol a nodir yn y Cynllun Corfforaethol, lle y byddant yn cynhyrchu gweithgarwch newydd neu ychwanegol, gael eu hasesu'n unigol o ran eu heffaith wrth iddynt gael eu datblygu.

Mae hefyd yn bwysig nodi bod ein lefel o ddylanwad a rheolaeth yn amrywio ar draws rhai o'r addewidion a bydd hyn yn effeithio ar ein gallu i gyflwyno effeithiau cadarnhaol mewn rhai meysydd. Er enghraifft, isadeiledd digidol.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Cafwyd rhaglen ymgynghori brysur er mwyn datblygu'r Cynllun hwn.

8.2. Gwahoddwyd yr holl fudd-ddeiliaid (h.y. y cyhoedd, staff, partneriaid ac Aelodau) i gymryd rhan yn Sgwrs y Sir, a oedd yn cynnwys tair rhan.

- Roedd y cyntaf yn fanwl iawn, yn gofyn cwestiynau agored ac yn annog ystyried yn hirdymor er mwyn gallu casglu safbwyntiau helaeth a chasglu data ansoddol i gyfrannu at yr Asesiad Lles. Cynhaliwyd y broses dros yr haf 2021 drwy gyfres o weithdai rhithiol a darparu holiaduron electronig ac ar bapur. Mae'r dull hwn yn gadarn ond mae wedi bod yn her wrth ymgysylltu yng nghanol y pandemig Covid-19, yr un fath â gweddill Cymru. Ymgysylltwyd â thros 300 o bobl yn y cam hwn.
- Lansiwyd Cam 2 Sgwrs y Sir ym mis Ionawr 2022 ar ôl i'r Cabinet a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth adolygu'r Asesiad Lles a datblygu Cynllun drafft. Diben y cam ymgynghori oedd rhannu'r Cynllun drafft a gwahodd adborth. Cafwyd adborth gan 383 o bobl yn y cam hwn drwy arolwg ar-lein a lansiwyd ym mis Ionawr 2022; a gweithdai ar-lein ar gyfer staff CSDd yn canolbwyntio ar bob thema unigol. Roedd presenoldeb da yng ngweithdai'r staff a gynhaliwyd tuag at ddiwedd Ebrill a thrwy gydol mis Mai 2022.
- Cam 3 yw cam diweddaraf y gweithgarwch, sef arolwg ar-lein a lansiwyd ddiwedd Gorffennaf ar ôl i'r Cabinet newydd gyflwyno'r Cynllun diweddaraf i'r Cyngor. Unwaith eto, diben y rownd ymgysylltu oedd hysbysu'r holl fudd-ddeiliaid ynglŷn â chynnwys y Cynllun a gwahodd adborth.

8.3 Cadwyd amserlen lawn o waith gyda'r Cabinet, yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Cyngor wrth ddatblygu'r Cynllun, fel a ganlyn:

Dyddiad	Fforwm	Pwrpas
30 Tach 2021	Gweithdy i'r Cabinet a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth	I adolygu'r Asesiad Lles statudol a drafftio Cynllun Corfforaethol.
19 Ionawr 2022	Briff i'r Cyngor ar ddrafft y Cynllun Corfforaethol	I hysbysu'r Cyngor ynglŷn â'r Cynllun drafft, darparu rhesymeg a lansio Cam 2 Sgwrs y Sir.

27 Mehefin 2022	Gweithdy i'r Cabinet ar y Cynllun Corfforaethol	Er mwyn i'r Cabinet newydd adolygu'r Asesiad Lles, drafftio eu Cynllun eu hunain, a thrawsgyfeirio cynnwys o'r fersiwn flaenorol.
6 Gorffennaf 2022	Gweithdy i'r Cabinet a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ar y Cynllun Corfforaethol	Er mwyn i'r Cabinet gyflwyno ei Gynllun Drafft i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth
12 Gorffennaf 2022	Sesiwn i'r Cyngor Llawn a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ar y Cynllun Corfforaethol.	I rannu'r Cynllun drafft gyda'r Cyngor, egluro'r rhesymeg, a gwahodd trafodaeth a sylwadau mewn grwpiau bach.
Medi 2022	Sesiynau Aelodau Arweiniol a Chyd-bennaeth dros dro Gwella Busnes a Moderneiddio gyda'r grwpiau gwleidyddol	I ymgysylltu gydag aelodau'r grwpiau gwleidyddol ar fersiwn ddiwygiedig y Cynllun cyn ei gyflwyno i dderbyn cymeradwyaeth y Cyngor.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae'r Cynllun Corfforaethol newydd yn hynod uchelgeisiol a bydd angen swm sylweddol o adnoddau ariannol i gyflawni'r cyfan. Ond, dylid nodi bod mwyafrif y

gweithgareddau eisoes wedi dechrau a bod adnoddau wedi'u nodi er mwyn eu cyflawni. Mae'r enghreifftiau o ymrwymiadau mawr yn cynnwys buddsoddi mewn cynlluniau llifogydd, adeiladau ysgolion, targed dim carbon a phriffyrdd. Ers y Cynllun Corfforaethol diwethaf mae Proses gadarn y Gyllideb wedi'i sefydlu ynghyd â phroses newydd ar gyfer cyllideb gyfalaf arfaethedig, a fydd yn sicrhau y gall gwasanaethau gyflwyno ceisiadau am ragor o gyllid fel rhan o broses flynyddol y gyllideb. Bydd hyn yn gymorth i atal dyrannu cyllid cyn bod angen a chynorthwyo i flaenoriaethu ar draws y Cyngor. Dylid nodi hefyd, fodd bynnag, bod y Cyngor yn wynebu amgylchedd ariannol hynod ansefydlog oherwydd pwysau chwyddiant a'r galw am gyllid sydd ymhell tu hwnt i'r lefel o gyllid a ragwelwyd. Gallai hyn effeithio ar argaeledd cyllid a'r hyblygrwydd wrth symud ymlaen.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae risg na all Sir Ddinbych gyflawni popeth yn y Cynllun, oherwydd bod adnoddau'n gyfyngedig a / neu oherwydd unrhyw faterion sy'n codi ac yn trechu rhai o'r addewidion hyn. Felly dylid ystyried y Cynllun fel datganiad o fwriad (ond bwriad pendant ar hyn o bryd). Bydd perfformiad y Cynllun yn cael ei reoli drwy lywodraethu cryf ac adroddir arno bob chwarter drwy'r Cabinet a Phwyllgor Craffu Perfformiad. Bydd unrhyw addasiadau i'r addewidion yma yn cael eu nodi drwy'r adroddiadau hynny a thrafodaethau pwyllgor, gan sicrhau bod trywydd archwilio llawn y tu cefn i unrhyw newidiadau.

10.2. Mae risg gan fod y Cynllun yn eiddo i'r Cyngor ond yn cael ei arwain gan y Cabinet y bydd rhai nad ydynt yn Aelodau Cabinet yn teimlo bod llai o allu iddynt ddylanwadu ar ddatblygiad a chanolbwynt y ddarpariaeth. Mae tryloywder wrth adrodd, a gallu i rai nad ydynt yn Aelodau Cabinet i ofyn cwestiynau i'r Cabinet yn galluogi i'r holl Aelodau gael trosolwg o gynnydd a chwmpas. Anogir yr Aelodau i ddefnyddio'r adroddiadau perfformiad i nodi meysydd i'w craffu ymhellach, a gofyn am ddadansoddiad yn seiliedig ar destun fel bo'r angen.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

11.2. Deddf Cydraddoldeb 2010

11.3. Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021